Treftadaeth y Dyfodol

Darganfyddwch y diweddaraf am effaith coronafeirws (COVID-19) ar y sector treftadaeth, a thu hwnt.

Rydym yn byw drwy gyfnod eithriadol. Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn dod â heriau newydd ac unigryw i'n sector. Nid oes amheuaeth na fydd yn wahanol iawn, ar ôl i'r argyfwng uniongyrchol fynd heibio.

Ond sut olwg allai fod ar y dyfodol hwnnw?

Yn ein cyfres blog Treftadaeth y Dyfodol, mae ffigurau blaenllaw o bob rhan o'r sector yn rhannu eu barn am yr hyn a allai newid, a pha gyfleoedd a allai fod o'n blaenau.